

ECAD6008/C 12/9/19 Tasg Gyfeiriol 1

Pwrpas y dasg gyfeiriol hon yw ystyried, mewn modd beirniadol, strategaethau penodol ar gyfer pedair elfen Asesu ar gyfer Dysgu, fel a ganlyn:

Rhannu meini prawf â dysgwyr

Ansawdd cwestiynau/ansawdd y siarad

Y defnydd o adborth a'i ansawdd

Asesu gan gymheiriaid a hunanasesu

Dychmygwch fod eich pennaeth wedi gofyn i chi flaenoriaethu strategaethau penodol ac ystyried sut y gellir eu gweithredu er mwyn gallu eu cyflwyno a'u defnyddio ar draws yr ysgol.

Gweithiwch fel grŵp i ddynodi a beirniadu strategaethau penodol ar gyfer pob elfen o Asesu ar gyfer Dysgu a nodir uchod. Dylech anelu at gael o leiaf bum strategaeth ar gyfer pob elfen pan fo'n bosibl.

Gwybodaeth / mynediad ar 'padlet':

<https://en-gb.padlet.com/>

<https://www.youtube.com/watch?v=TqRVg2ZMaDM>

Meini prawf llwyddiant/Am beth rydyn ni'n chwilio

Bydd eich grŵp yn

- ✓ creu ac yn rhoi cynnwys mewn padlet diddorol, gan amlinellu pedair elfen Dysgu ar gyfer Asesu.
- ✓ ymgymryd ag ymchwil i helpu i hysbysu strategaethau ar gyfer pob elfen

Ar gyfer **pob elfen** bydd eich grŵp yn:

- ✓ Awgrymu o leiaf bum strategaeth benodol ar gyfer pob elfen
- ✓ Ystyried cyfyngiadau ac addasiadau posibl ar gyfer pob strategaeth (e.e. sut byddai'n gweithio gydag ystodau oedran gwahanol/ym mha sefyllfaoedd y byddai'n gweithio'n fwyaf effeithiol/sut y gellid ei datblygu ymhellach)

Adnoddau posibl

Llyfr Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) 'Sut i Ddatblygu Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu yn yr Ystafell Ddosbarth' - ar gael yn ffolder Diwrnod 2.

Pecynnau cymorth ar gael yn: <https://mikegershon.com/resources/>